Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tal-y-bont
# Talybont
# Ceredigion
# SY24 5HE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Tal-y-bont ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Ers mis Medi 2010, bu'r ysgol mewn partneriaeth anffurfiol gyda dwy ysgol arall gyfagos ac maent yn rhannu'r un pennaeth.

Ar hyn o bryd, mae 62 o ddisgyblion ar y gofrestr o fewn tri dosbarth oed cymysg. Mae tua 17% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Daw tua 41% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 42% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2009. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2001.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tal-y-bont yn 2015-2016 yw £3,883. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Tal-y-bont yn y 23ain safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson
- safon ymddygiad disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda
- yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus
- ansawdd yr addysgu yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol
- presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yn dda

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr
- ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli a phawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion
- yr ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol
- y llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac yn barod i herio'r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol
- gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn yn yr ysgol
- gan yr ysgol bartneriaethau cryf sy'n cyfrannu at godi safonau a gwella lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu Saesneg y disgyblion

A2 Datblygu cymunedau dysgu proffesiynol i gyfoethogi darpariaeth yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefel isel o allu yn eu medrau sylfaenol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau gwrando a llafar bron pob disgybl yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar a chyfathrebu. Maent yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn ymateb yn hyderus ar lafar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac maent yn datblygu geirfa briodol. Gall lawer fynegi barn mewn modd aeddfed am wahanol destunau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n ddarllenwyr da. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio strategaethau addas i adeiladu geiriau yn llwyddiannus. Maent yn darllen yn gywir ac yn trafod llyfrau mewn modd aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn medru darllen gyda mynegiant yn y ddwy iaith. Gallant gywain gwybodaeth am destunau penodol o wahanol ffynonellau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf yn darllen ystod o ddeunyddiau ar draws y cwricwlwm gyda brwdfrydedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol yn y Gymraeg. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac yn defnyddio geirfa ac ymadroddion yn gynyddol gywir. Maent yn amrywio brawddegau ac yn atalnodi yn hyderus wrth ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig disgyblion yn daclus ac yn drefnus ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, ar adegau, mae safon sillafu lleiafrif o ddisgyblion yn amrywio yn y Saesneg.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Gall llawer ddefnyddio unedau safonol i fesur a chynnal tasgau ar gynhwysedd gyda chywirdeb da ac mae llawer yn gallu trin data yn bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio arian yn effeithiol wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol yn gynyddol hyderus. Maent yn trin a dadansoddi data yn dda gyda'r mwyafrif yn gallu cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl ac ymchwiliol yn llwyddiannus ar draws y pynciau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â'u cyfoedion.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod niferoedd bychan o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn medru effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch, mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio tipyn mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ac, yn gyffredinol, wedi bod islaw'r cyfartaledd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod yn amrywiol ac, yn gyffredinol, nid yw mor gryf â pherfformiad ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda chyfoedion, ac mae safon eu hymddygiad yn dda. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae gallu'r disgyblion i werthuso gwaith eu hunain yn datblygu'n briodol, gyda'r mwyafrif yn dechrau dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn weithgar a chydwybodol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod safbwyntiau cyd-ddisgyblion ac i gynllunio gweithgareddau amrywiol, fel casglu arian tuag at elusennau penodol. Mae aelodau'r cyngor yn ymwybodol o reolau diogelwch yr ysgol ac yn barod i herio oedolion sydd heb wisgo bathodyn pwrpasol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn falch o'u hymdrechion i godi arian at elusennau fel Apêl Newyn Dwyrain Affrica, Tŷ Hafan a Phlant mewn Angen. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i gynnal gwasanaethau a chyngherddau yn y capel a'r gymuned leol.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau bod y profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol a thu hwnt, ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol sy'n datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae'r dimensiwn Cymreig yn amlwg yng ngweithgareddau'r ysgol ac fe wneir defnydd da o ymwelwyr, fel Bardd Plant Cymru ac artistiaid lleol, i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u Cymreictod.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau priodol i ennyn diddordeb disgyblion mewn cynaliadwyedd. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang ac o anghenion pobl ddifreintiedig. Mae hyrwyddo egwyddorion Masnach Deg a gweithgareddau i helpu plant mewn gwledydd yn Affrica yn enghreifftiau da o hyn.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys dulliau addysgu amrywiol a holi effeithiol iawn i sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus iawn i'r disgyblion . Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd dysgu ac maent yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau'r disgyblion yn dda. Mae rheolaeth dosbarth yn effeithiol ac mae'r athrawon yn creu ethos adeiladol, gofalgar a chyfeillgar.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gyflwyno'r dysgu ac esbonio testunau newydd. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau yn fedrus i gyflwyno gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar i ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau. Mae'r holl staff yn modelu iaith yn dda ac mae hyn yn cryfhau iaith lafar disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu, olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r athrawon yn cynnig adborth manwl yn ysgrifenedig, ac ar lafar, sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant ac yn dangos i'r disgyblion sut i wella'u gwaith. Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. Mae'r broses o osod targedau i wella gwaith disgyblion wedi ei sefydlu'n briodol drwy'r ysgol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gyflawniadau a datblygiad eu plant ac mae adroddiadau'n bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefel uchel y gofal a'r cymorth yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i gadw'n heini.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy wasanaethau cyd-addoli rheolaidd a gweithgareddau'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar destunau fel gofalu am eraill ac ystyried bywydau pobl a phlant llai ffodus yn dylanwadu'n dda ar eu dealltwriaeth o faterion cyfoes.

Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol, fel therapyddion iaith, i gefnogi disgyblion unigol. Mae'r darpariaethau amrywiol yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth gadarn ar gyfer y teulu cyfan ac mae'r prosiect 'Gweithgareddau Llesol' yn hyrwyddo hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'n cynnig cefnogaeth effeithiol drwy grwpiau ymyrraeth, gyda sylw penodol i wella medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r targedau clir a chyraeddadwy a nodir yn y cynlluniau addysg unigol yn cysylltu'n dda â thargedau'r disgyblion hynny yn y dosbarth. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys y rhieni yn y broses.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae'r oedolion a'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal. Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o strategaethau llwyddiannus i sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais. Mae gan yr oedolion ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu ymagwedd aeddfed a chyfrifol.

Mae'r staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a thir yr ysgol. Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adeilad a'r iard chwarae yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn raenus ac yn lân. Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau dysgu pwrpasol sydd mewn cyflwr da. Mae'r ardal tu allan yn cynnwys adnoddau creadigol a lliwgar ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r cartref gwellt o wlad Malaŵi ar yr iard yn nodwedd ddeniadol ac unigryw.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion.

Mae'r pennaeth cynorthwyol a'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae'r athrawon yn ymroddedig ac maent yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer y disgyblion.

Mae'r cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar safonau ac ansawdd yr addysgu. Darpara'r ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithlon sy'n hyrwyddo agweddau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw priodol ac mae'r ysgol yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus. Trwy ddadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau, maent yn datblygu dealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach. Mae ganddynt drefn glir o wirio effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac maent yn barod i herio'r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn yn yr ysgol. Maent yn seiliedig ar raglen fonitro glir, dadansoddi data, ystyried gwaith disgyblion, arsylwadau gwersi, casglu barn llywodraethwyr, disgyblion, staff a rhieni. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu gan lunio adroddiadau arfarnol rheolaidd, ar y cyd â'r pennaeth, ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Mae'n cynnig barn glir am gyrhaeddiad disgyblion a'r mannau sydd angen eu gwella. Mae'r adroddiad yn cysylltu'n effeithiol â'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r cynllun datblygu yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, gwella'r ddarpariaeth a sicrhau lles y disgyblion. Mae'n ddogfen weithredol sy'n cynnwys targedau mesuradwy a chamau gweithredu addas. Mae wedi ei chostio'n ofalus gydag amserlen gweithredu a chyfrifoldebau staff penodol. Mae gan aelodau'r staff a'r llywodraethwyr rolau priodol er mwyn creu, gweithredu a monitro agweddau o'r blaenoriaethau. Mae blaenoriaethau'r cynllun blaenorol eisoes wedi arwain at welliannau yn lles y disgyblion. Er enghraifft, mae'r 'grŵp maethu' wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf sy'n cyfrannu at godi safonau a gwella lles disgyblion. Enghraifft ragorol o hyn yw'r prosiect 'Gweithgareddau Llesol', lle mae'r ysgol yn cydweithio â'r disgyblion a theuluoedd yn y gymuned yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth gadarn â'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at ystod o weithgareddau, gan gynnwys prynu llechi electronig ac adnoddau i'r Cyfnod Sylfaen a chyfrannu at ymweliadau ysgol buddiol.

Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng y tair ysgol o fewn y bartneriaeth anffurfiol. Maent yn rhannu arfer dda, yn monitro ac yn cyd-gynllunio. Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol sydd yn galluogi disgyblion i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd yn effeithiol, gan baratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol ag ysgolion lleol i gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion a sicrhau cysondeb a chywirdeb asesiadau.

Mae'r cysylltiadau niferus â'r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned. Enghraifft dda o hyn yw'r 'Prosiect Cymerau' sydd wedi sicrhau ymweliadau gan feirdd ac arlunwyr i gyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o wasanaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad, lles a chyflawniad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol i lwyddiant y dysgu.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau.

Er bod cydweithio priodol â'r tair ysgol yn y bartneriaeth anffurfiol, nid yw'r athrawon yn gweithio o fewn cymunedau dysgu broffesiynol i gyfoethogi darpariaeth yr ysgol.

Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn bwrpasol ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol grŵp penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn ôl eu hoedran a'u targedau.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r ysgol.
O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672317 - Ysgol Tal-y-bont**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 70 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 10 | 6 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 40.0 | 66.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 6 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 40.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 40.0 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 6 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 40.0 | 66.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 0.0 | 0.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 6 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 90.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 88.9 | 70.0 | 66.7 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672317 - Ysgol Tal-y-bont**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 70 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | 10 | * | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 63.6 | 70.0 | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 63.6 | 70.0 | * | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 72.7 | 80.0 | * | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 72.7 | 70.0 | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 35.7 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | * | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | 80.0 | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 35 | 33<br>94% | 2<br>6% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 35 | 31<br>89% | 4<br>11% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 35 | 34<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 35 | 35<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 35 | 35<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 35 | 34<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 35 | 34<br>97% | 1<br>3% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 35 | 35<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 35 | 34<br>97% | 1<br>3% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 35 | 34<br>97% | 1<br>3% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 35 | 31<br>89% | 4<br>11% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 35 | 33<br>94% | 2<br>6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 20 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 30 | 23 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 29 | 19 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 28 | 7 | 14 | 7 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 25% | 50% | 25% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 29 | 18 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 20 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 29 | 13 | 15 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 52% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 18 | 9 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 16 | 11 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 29 | 19 | 9 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 28 | 15 | 12 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 30 | 13 | 13 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 43% | 13% | 0% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 19 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 33% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 29 | 16 | 12 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 55% | 41% | 0% | 3% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 16 | 11 | 0 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 14 | 7 | 1 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 64% | 32% | 5% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 17 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 12 | 13 | 2 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 43% | 46% | 7% | 4% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Edna Davies | Arolygydd Tîm |
| Hazel Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.